



Rhaglen - Dydd Iau 3ydd Mawrth a Gwe 4ydd Mawrth, The Lodge, Penfforddlas

Rhaglen ddisglair i gynhesu'r enaid ar ddechrau'r gwanwyn.

Ymunwch ag eraill sydd â diddordeb mewn creu celfyddydau awyr agored byw yng Nghymru ac yn rhyngwladol, mewn cynulliad deuddydd bychan yn y Porthdy ym Mynyddoedd Cambria.

Bydd y cynulliad hwn yn dechrau creu lle i fflamau newydd gynnau'r tirlun creadigol yng Nghymru a thu hwnt wrth inni gamu i 2022.

Mae croeso i bawb sydd â diddordeb mewn creu celfyddydau awyr agored – o gynhyrchwyr, rheolwyr canol tref, artistiaid a rhai sy'n gweithio yn yr amgylchedd naturiol i leoliadau, gwyliau, ecolegwyr, awdurdodau lleol a chyllidwyr. Beth bynnag fo'ch cefndir neu anghenion, hoffem ichi deimlo'n gartrefol yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn – rydym yn croesawu sgysiaid gyda chi ynghylch yr hyn sydd ei angen arnoch i gymryd rhan. Cysylltwch â ni – artculture-wales.co.uk/contact.



Co-funded by the
Creative Europe Programme
of the European Union



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED




MINISTÈRE
DE LA CULTURE

Liberté
Égalité
Fraternité



wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru



Diwrnod 1 - ffocws ar Gelfyddydau Awyr Agored Cymru

9.30 - 11am - Y Lolfa a'r Lawnt

Dewch i lolfa'r Porthdy i gofrestru a chael lluniaeth cyn mynd am y lawnt i fwynhau croeso Cymreig calonnog gyda thro rhyngwladol yng nghanol Mynyddoedd Cambria gyda Mandy Dike o AndNow, a'r artistiaid man hap Gareth Clark, Ami Marsden a Catrin Doyle.

Yn ganolbwynt i'r croeso fydd Samovar mawr AndNow. Dyfais Rwsiaidd yw Samovar ac, yn draddodiadol, caiff ei ddefnyddio i wneud te. Mae'n ymgorffori lletygarwch twymgalon ac mae rhai pobl yn credu bod gan Samovars enaid. Paned o de i godi calon!

Mae AndNow wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru ac maent yn gweithio yn fyd-eang; yn dyfeisio, dylunio a chreu delweddu, gosodweithiau a pherfformiadau gweledol. andnow.co.uk

Mae **man hap**: **human happenings** yn lle cefnogol i artistiaid o bob cwr o Gymru ddod ynghyd i gyfarfod, creu a rhannu. Mae **man hap** yn cydweithio ar-lein ac wyneb yn wyneb ledled Cymru mewn ffyrdd sy'n aml yn hardd, weithiau'n anarchaidd, ond bob amser yn wresog a chroesawgar. manhap.com

Mae pobl yn tueddu i adnabod Gareth Clark orau fel un rhan o Mr a Mrs Clark, sydd wedi bod yn creu perfformiadau, celfyddyd byw a theatr ddawns ers 20 mlynedd. Maent yn cael eu hysbrydoli gan yr amgylchedd maent yn byw ynddo i greu darnau perfformio beiddgar a heriol i gysylltu ac ysbrydoli ein cynulleidfaoedd. mrandmrsclark.co.uk

Artist-Ymgyrchydd wedi'i lleoli ym Mhontypridd, de Cymru yw Catrin Doyle. Bydd Catrin yn creu celfyddyd ar sawl ffurf, gan gynnwys ffilm a cherflunwaith cyfryngau cymysg, ac mae ei gwaith yn aml yn chwareus ac yn rhyngweithiol; yn archwilio ein perthynas â'r amgylchedd, y gymuned a'n dyfodol gyda'n gilydd. Mae ei gwaith blaenorol yn cynnwys sötropau wedi'u pweru gan feiciau - a ddangoswyd yng ngŵyl Llawn, a ffilmiau a ddangoswyd ar S4C, ar y BBC ac mewn gwyliau ffilm mawr eu bri ar hyd a lled Ewrop. catrindoyle.squarespace.com

Mae Ami yn artist a cherflunydd ymarfer cymdeithasol sy'n gweithio gyda lleisiau pobl a chyfranogiad cymunedol pobl i greu darnau cyhoeddus rhyngweithiol, llawn ysbrydoliaeth. amimarsden.com.

11am - Croeso gan Articulture & Circostrada – Neuadd y Pentref

11.15am – 1pm – Dewis o weithgareddau

Cynlluniau a Dyheadau ar gyfer Celfyddydau Awyr Agored Cymru 2022 – Neuadd y Pentref

Beth yw cynlluniau a dyheadau pobl ar gyfer celfyddydau awyr agored yng Nghymru eleni? Sgwrs cylch agored gyda thro creadigol. Mae croeso i bawb rannu eu cyfleoedd, prosiectau a syniadau. Yr hwyluswyr fydd Iwan Williams, Cynhyrchydd a Chyfarwyddwr Annibynnol, Ffiwsar, a Rosie Strang, Cyd-gyfarwyddwr, Articulture. Bydd y sesiwn hon yn cael ei dogfennu er mwyn ei rhannu gydag eraill.

Dwy sesiwn galw heibio y gallwch ymuno â nhw /eu gadael fel y dymunwch -

Sgwrs wrth goginio - Ystafell Fwyta - Sgwrs wrth inni goginio gyda'n gilydd ar gyfer eraill. Annie o dîm Articulture fydd yn arwain y sesiwn. Pam ydym eisiau gwneud i gelfyddydau awyr agored weithio? Beth yw ein dyheadau? Beth sydd wedi ein hysbrydoli ni i greu?

Ailddychmygu - Lawnt neu Lolfa - Gweithdy ar gyfer ailddychmygu a chreu, gyda gweithgareddau creadigol syml o gwmpas tân y Samovar neu o flaen llosgydd pren lolfa'r Porthdy gydag Artistiaid man hap - **human happenings** Catrin Doyle, Ami Marsden a Gareth Clark.

1-2pm Cinio– Lolfa, Ystafell Fwyta, Lawnt

2pm – Ysgogiad a Gwahoddiad – Lawnt

Ysgogiad - Bydd Sita Thomas, Cyfarwyddwr Artistig Fio, ac Osian Meilir, artist sy'n creu a pherfformio gwaith dawn a symud, yn myfyrio o safbwynt personol ar ymarfer celfyddydau awyr agored yng Nghymru, a'i ddyfodol.

Mae Fio yn bodoli i greu newid mawr yn y sector celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru. Eu gweledigaeth yw y bydd pobl o bob oed o'r Mwyafrif Byd-eang yn rhan annatod ac yn ffynnu ym mhob agwedd ar y theatr a'r celfyddydau yng Nghymru.

Mae Osian Meilir yn artist sy'n creu a pherfformio gwaith dawns a symud. Daw'n wreiddiol o Bentre'r Bryn ar arfordir gorllewin Cymru, ac mae'n creu ac yn cydweithio yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Roedd ei gynhyrchiad celfyddyd awyr agored graddfa ganol cyntaf, sef 'Qwerin' yn waith uchelgeisiol a oedd yn chwalu ffiniau ffurfiau penodol. Fe'i perfformiwyd am y tro cyntaf yn 2021, gydag ef yn gyfrifol am y cyfarwyddo a'r coreograffi. osianmeilir.com/works

Gwahoddiad - Gan ddwyn ysbrydoliaeth o sgysiau ac ysgogiadau'r bore, beth yw eich cwestiwn mawr, syniad neu gyfle yr hoffech ei rannu gydag eraill? Rydym yn eich gwahodd i awgrymu pwnc trafod yr hoffech ei gyflwyno yn nes ymlaen yn y sesiwn 'Diod i Drafod', i gael ei baratoi yn y lolfa erbyn 4:30pm.

2.30 – 3.45pm

Symud - Stiwdio - Ailgyssylltu gyda'n cyrff drwy symudiadau chwareus, canu a cherddoriaeth wedi'u hysbrydoli gan Carnival! Ar gyfer pobl o bob gallu, dan arweiniad June Campbell Davies yn stiwdio olau, braf y Porthdy, sydd â ffenestri anferth tua'r mynyddoedd.

Mae June Campbell Davies yn Ddawnswraig, Coreograffydd, Gwneuthurwr Ffilmiau, Athrawes a Hwylusydd sydd â hanes cyfoethog ac amrywiol o waith Carnival cymunedol ar y cyd, perfformiadau dawns, ac addysgu mewn sefydliadau megis Rubicon Dance a'r Coleg Brenhinol Cerdd a Drama.

Dwy sesiwn galw heibio y mae croeso ichi ymuno â nhw /eu gadael fel y dymunwch ar unrhyw adeg -

Sgwrs wrth goginio - Ystafell fwyta. Sgwrs wrth inni goginio gyda'n gilydd ar gyfer eraill. Lisa Heledd Jones a'r tîm Articulture fydd yn arwain y sesiwn. Pam ydym eisiau gwneud i gelfyddydau awyr agored weithio? Beth yw ein dyheadau? Beth sydd wedi ein hysbrydoli ni i greu?

Mae gan Lisa ddiddordeb mewn pobl a lleoedd, a'r straeon sydd ganddynt i'w hadrodd. Mae hi'n gwrando drwy recordio seiniau a lleisiau, cerdded a thynnu lluniau, ac yn cydweithio ag eraill i greu prosiectau ac ymyriadau arbennig. lisahelddjones.com

Ailddychmygu - Lawnt neu Lolfa - Gweithdy ar gyfer ailddychmygu a chreu, gyda gweithgareddau creadigol syml o gwmpas tân y Samovar neu o flaen llosgydd pren

lolfar Porthdy gydag Artistiaid man hap - **human happenings** Catrin Doyle, Ami Marsden a Gareth Clark.

4pm – Egwyl

Ailymgynnull, a chyfle i gael saib bach a myfyrio o flaen y Samovar gyda phaned o de a theisen.

4.30 – 5.30pm – Diod i Drafod - Gyda phwy yr hoffech chi sgwrsio nawr?

Cyflwynwch eich pynciau, syniadau neu gyfle dros ddiodydd a bag o greision. Neu ymlaciwch o flaen y llosgydd pren, neu fynd allan am dro.

6.30pm Swper ar gyfer y rhai sy'n aros ar y safle neu oddi ar y safle.

7.30pm – Gweithdy: Cysylltiadau Synhwyrdd

Hwyluswyr → Phil Lambert a Marc Rees

Gweithgaredd arbrofi gyda siarcol a chrwydro yn y nos

Mae cysylltiad naturiol rhwng yr hen, hen broses o greu siarcol a hanes bywyd dynol. Dros filenia, mae'r broses hon wedi rhoi tanwydd, pigment a deunyddiau lluniadu inni. Cewch ailgysylltu â phrosesau hynafol, megis creu siarcol, echdynnu clai a chreu paent gyda Phil Lambert a'r artist gwadd rhyngddisgyblaethol, Marc Rees. Rydym yn eich gwahodd i eistedd o gwmpas tanau yn yr awyr agored yn creu siarcol a sgwrsio, cyn mentro i'r tywyllwch i geisio darlunio swyn y coed wrth ichi grwydro yn y nos - gwneud eich marc a syllu ar y sêr. Yna, yn ôl i'r Porthdy i gael gweld y lluniau y byddwch wedi'u creu a thrafod beth maent yn ei ddatgelu.

Bywgraffiad

Mae Phil yn dad i dair merch ifanc, yn Artist Gweledol ac yn arbenigwr ymgysylltu gyda chefnidir rhyngddisgyblaethol ar draws y gwyddorau a'r celfyddydau. Mae ei ymarfer celfyddydol yn rhannu ac yn datblygu dealltwriaeth o ecoleg, cynaliadwyedd, athroniaeth, dysg a chreadigedd - drwy gyfrwng paentio, lluniadu, serameg, ffilm, ffotograffiaeth amgen ac arolygon, a gyda chymunedau penodol.

Mae ei ymarfer yn ystyried y rhesymau dros greu darnau o waith, arwyddocâd testun y gwaith, tarddiad y deunyddiau ac yna sut i'w rhannu. Yn ddiweddar, mae ei waith wedi bod yn canolbwyntio ar bridd. Er enghraifft, gweithio gyda thîm Diogelwch Pridd Prifysgol Reading i wneud paentiadau arsylwadol gan ddefnyddio priddoedd lleol, a

phrintiau ffotograffig wedi'u datblygu drwy hen dechneg profi pridd sy'n edrych ar fywioldeb pridd.

Diwrnod 2 - digwyddiad Dive Circostrada

Mae Cricostrada, y rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer celfyddydau syrcas ac awyr agored cyfoes, yn cychwyn ei flwyddyn ar y pwnc '[Corff/Cyrff Byw](#)' gyda'r cyntaf o'i ddigwyddiadau '**Dive**', y tro hwn ar y cyd ag Articulture yng Nghymru.

Cawn ein gwahodd i blymio ('dive') i mewn i ddiwrnod o sgysiau, teithiau cerdded a gweithdai gan amrywiaeth o siaradwyr, cyfranogwyr ac arweinwyr gweithdai cyffrous o Gymru a thu hwnt a fydd yn ystyried ecoleg a chynaliadwyedd yn y celfyddydau perfformio.

Mae **Dive** yn cynnig cyfle am hyfforddiant trylwyr mewn cyd-destun lleol penodol i weithwyr celfyddydau syrcas ac awyr agored cyfoes, gan eu galluogi i ennill dealltwriaeth sylweddol o fro, ei gweithgarwch artistig, ei hecosystem, ei chymuned a'i rhanddeiliaid.

Mae **Dive** yn digwydd o fewn fframwaith digwyddiad allweddol celfyddyd syrcas ac/neu awyr agored ar lefel leol, ac mae'n rhoi cyfle i'r cyfranogwyr rwydweithio a datblygu cysylltiadau a chyfleoedd cydweithio rhyngwladol.

9.30 - 11am - Y Lolfa a'r Lawnt

Sgwrs foreol i osod y sylfaen ar gyfer y pwnc Corff/Cyrff Byw. Beth ydyn ni'n siarad amdano? Sut ydyn ni'n siarad amdano? Ydyn ni i gyd yn cyfeirio at yr un pethau wrth feddwl am ecoleg a chynaliadwyedd?

Yn y sgwrs gyntaf hon, byddwn hefyd yn ceisio mynd ymhellach drwy ddechrau trafodaeth ynghylch sut i ymateb i drawsnewid ecolegol yn erbyn cefndir o wahaniaethau mewn grym, ac anghydraddoldeb cymdeithasol a daearyddol.

Hwylusydd → Stéphane Segreto-Aguilar - Cydlynnydd Rhwydwaith Circostrada (Ffrainc)

11am-12:30pm – "Rhyngwladoli'r celfyddydau: sut i ailfeddwl am uchelgeisiau rhyngwladol er mwyn bod yn drawsleol.

Bydd y sesiwn hon yn rhoi sylw i'r cysyniad o 'drawsleoliaeth' er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r her y mae'r argyfwng presennol yn ei chyflwyno: sut i ail-lunio neu ailfeddwl am ein huchelgeisiau artistig rhyngwladol mewn ffordd sydd â sylfaen leol?

Sut mae gweithio ar draws ffiniau heb fynd i fyd celf cyffredinol, generig? Ydy hi'n bosib cysylltu cyd-destunau lleol a byd-eang yn y byd celf, ac yn y celfyddydau perfformio yn arbennig?

Hwylusydd → Heba el-Cheikh (yr Aifft)

12:30-2pm – Cinio

2pm-5pm – Gweithdai cydamserol

2pm-5pm – Gweithdy 1 – Ogam: Yr Wyddor Goed Geltaidd

Hwylusydd → Cheryl Beer

Curadur → Marc Rees

Filoedd o flynyddoedd yn ôl, roedd yr hen Geltiaid yn siarad iaith yr ystyriwyd ei bod mor gysegredig nes i Frenhinoedd ei gwahardd, ond mae'r wyddor Ogam yn llawer mwy na chasgliad o lythrennau. Mae'n system o symbolau sydd wedi'i seilio'n llwyr ar arwyddocâd diwylliannol ac ysbrydol coed, sy'n rhoi cipolwg i ni ar y ffordd yr oedd ein cyndadau'n parchu, gwerthfawrogi a deall eu hamgylchedd.

Ymunwch â Cheryl i ddysgu am y ffurf ysgrifennu hynafol hon a ddefnyddiwyd ar bren, mewn cerrig ac yn nwylo Celtiaid fel iaith arwyddion. Byddwn yn trafod sut yr oedd Ogam yn berthnasol i'r Derwyddon, yn dysgu sut yr oeddynt yn defnyddio Ogam o ddydd i ddydd, ac yn llunio pob un o'r symbolau i ddeall eu hystyr. Os bydd y tywydd yn caniatáu, byddwn yn dysgu am Ogam ym mhresenoldeb coed. Os na fydd hynny'n bosib, gallwn greu coedwig ddychmygol drwy fyfyrrio. Yn ymuno â Cheryl fydd y gŵr gwadd arbennig, Marc Reed, sy'n artist rhyngddisgyblaethol/safle-benodol o Gymru. Bydd yn esbonio sut yr oedd ei waith diweddar CRO|PAN, a gafodd gefnogaeth gan y British Council, yn archwilio Ogam fel dawns ystumiol yng nghefn gwlad Cymru, drwy gydweithrediad â'r Pickle Factory Dance Foundation, Kolkata, India.

Bywgraffiad

Mae Cheryl Beer (DU) yn sibrydwr môr sy'n gwrando ar goed. Mae'n rhoi pwrpas newydd i dechnoleg cymorth clyw a biofeddygol drwy gyfansoddi symffonïau a cherfluniau sain sy'n cael eu harwain gan y byd naturiol. Mae ganddi ddiddordeb yn y berthynas rhwng sain, cerddoriaeth a'r amgylchedd, ac mae ei gwaith arloesol ym maes cerddoleg eco yn codi ymwybyddiaeth drwy hyrwyddo ymdeimlad dwfn o le. Yn ogystal â chreu cyfuniad arloesol o gelfyddydau a thechnoleg, mae llawer o waith Cheryl yn seiliedig ar ymchwil ddiwylliannol a hanesyddol, ac yn archwilio'r arferion

hynafol a drosglwyddwyd i ni gan ein cyndadau, gan ddylanwadu ar Nawr i sicrhau yfory gwell.

<https://www.cherylbeer.com/>

2pm-5pm – Gweithdy 2 – Ffocws ar estheteg seiliedig ar ecoleg

Gweithdy i archwilio'r estheteg newydd a gynhyrchwyd gyda dyfodiad materion ecolegol. Dewch inni ganolbwyntio ar greadigaethau artistig sy'n deillio'n benodol o syniadaeth ecolegol.

Hwylusydd →_fin Jordao (Cymru/Portiwgal)

Bywgraffiad

Mae fin Jordao yn fiolegydd ac yn addysgwr yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, Cymru lle wnaethant hefyd gyd-greu rhaglen artistiaid preswyl ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru a hyfforddi ar raglen 'Creative Climate Leadership' Julie's Bicycle. Mae eu hymarfer celfyddydol yn perthyn i fframweithiau coreograffi cyfranogol ac estheteg berthynol, ac maent yn aml yn gweithio ar y cyd â mentrau artistiaid cydweithredol [hello!earth, DK], mewn symposia [social fermentation, art.earth, fo.am], mewn cynadleddau [PSI #21 fluid states], drwy gyfnodau preswyl [Cyfnod Preswyl Cynaliadwyedd Caergrawnt, Kedja Nordic Dance Wilderness] a thrwy gomisiynau [Artscape].

Maent wedi ysgrifennu ar gyfer cyhoeddiadau sy'n cael eu harwain gan artistiaid mewn tair iaith - cyfraniad ynghylch ecoleg cwiar ar gyfer PEAK Cymru ac Amgueddfa Cymru oedd y mwyaf diweddar.

Gan gydnabod y gydberthynas hanesyddol rhwng y celfyddydau gweledol a'r gwyddorau naturiol a deall y ddau beth fel ffyrdd o ymgysylltu, maent yn cydblethu eu cefndir mewn bioleg ac ecoleg gydag ymarfer celfyddydol, gan fanteisio ar botensial cydweithredol meysydd ymarfer sy'n cydweddu'n dda.

2pm-3:30pm – Gweithdy 3 – Ffyngau: y cyswllt coll

Rydym yn aml yn meddwl am natur fel rhywbeth ar wahân i ddynol ryw; rhywbeth rydym wedi dysgu ei reoli a'i ddefnyddio er ein budd ni. Mae bodau dynol wedi creu hierarchaeth deallusrwydd pethau byw, gan osod ni ein hunain ar y brig, ac yna'r rhai sy'n edrych yn debycach i ni (tsimpansiad) i ddilyn... ac mae planhigion a ffyngau wedi'u gosod ar y gwaelod un - gan nad ydynt yn edrych nac yn ymddwyn fel ni, ac am nad oes ganddynt ymennydd fel ni. Y gwir yw bod y dehongliad anthropomorffig hwn o'r byd yn dangos mor anwybodus a datgysylltiedig oddi wrth natur, a ffyngau yn fwy penodol, ydym, a'n hanwybodaeth o'r swyddogaeth

hollbwysig sydd ganddo wrth sicrhau ein bodolaeth yn y lle cyntaf, a sicrhau ein bod yn goroesi.

Mae ffyngau'n perthyn i deyrnas fywyd hollol ar wahân i blanhigion ac anifeiliaid, ac maent i'w cael ym mhob cynefin ar y Ddaear... gan gynnwys yn ein cyrff ni! Drwy gyflwyniad i waith hynod ddiddorol ac addysgiadol y biolegydd Merlin Sheldrake, cawn archwilio byd y ffyngau a'r rhan hanfodol, anhysbys bron, y maent yn ei chwarae wrth greu ein byd, newid ein meddyliau a dylanwadu ar ein dyfodol drwy ein helpu i fynd i'r afael â phroblem fwyaf ein hoes: y newid yn yr hinsawdd.

Hwylusydd → Karine Décorne (Cymru/Ffrainc)

Bywgraffiad

Mae Karine wedi bod yn gweithio yn y byd celfyddydol ers 25 mlynedd, yn Llundain, Genefa a Chymru. Cyd-sefydlodd Migrations yn 2004 ac fe ddatblygodd brosiectau sy'n canolbwyntio ar ddod â chelfyddydau, natur a gwyddoniaeth ynghyd drwy bartneriaethau ar draws sectorau, gyda'r nod o ailgysylltu pobl â natur a rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn un o gyd-sefydlwyr y rhwydwaith Ewropeaidd AREA, ac yn aelod gweithgar ohono. Mae'r rhwydwaith yn canolbwyntio ar gelfyddydau cyfoes mewn ardaloedd gwledig.

5pm-6pm – Rhwydweithio anffurfiol

6pm-7:30pm – Swper